

## PWYLLGOR PENODI

### Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2021

<b>PRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS (Is-Gadeirydd)  Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones a R Meirion Jones.
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr, Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>YMDIHEURIADAU:</b>	Dim
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Neb

---

#### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim.

#### 2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

##### PENDERFYNWYD:-

**“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

#### 3 PENODIADAU STAFF

##### Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

Adroddodd y Prif Weithredwr, yn unol ag argymhelliad y Cyngor llawn a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021, fod swydd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedi'i hysbysebu ar 12 Chwefror 2021 tan 1 Mawrth 2021.

Dywedodd y Prif Weithredwr, yn unol â'r arfer recriwtio safonol, y ffurfiwyd rhestr fer annibynnol yn seiliedig ar y wybodaeth yn y ceisiadau, ac argymhellodd y dylid tynnu rhestru rhestr fer o'r ymgeiswyr sy'n cwrdd â'r trothwy gofynnol. Argymhellwyd bod y Pwyllgor Penodiadau yn dilyn yr un broses a ddilynwyd gyda nifer o uwch benodiadau diweddar sy'n ddull tri cham, sef : -

- Cyfweiliad allanol gyda Gatenby Sanderson yn seiliedig ar broses prawf seicometrig ar gyfer pob ymgeisydd ar y rhestr fer;
- Cyfweiliad Proffesiynol i'w gynnal rhwng y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn AD fel ffordd o gadarnhau cywirdeb y ffurflen gais;
- Cyfweiliad gyda'r Pwyllgor Penodiadau, i wneud penderfyniad ar ba ymgeisydd, os o gwbl, a ddewisir ar ôl ystyried y ddau gam blaenorol a fydd yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad cyn y cyfweiliad ffurfiol â'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD cefnogi'n unfrydol argymhelliad y Prif Weithredwr ynghylch y rhestr fer a'r broses tri cham fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar y mater.**

#### **4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**“O dan adran 100 (a) (4) deddf llywodraeth leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn atodlen 12a y ddeddf honno ac yn y prawf budd y cyhoedd sydd ynghlwm. exclusion of the press and public**

#### **5 PENODIADAU STAFF**

**Swydd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion**

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid y bu trefniadau dros dro ar waith ers Mehefin 2020 i gefnogi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro. Gyda'r penodiad parhaol i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mae bellach yn amserol llenwi swydd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn barhaol.

Y swydd hefyd fydd Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i hysbysebu swydd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddilyn trefn arferol y Cyngor o hysbysebu'r swydd ar y wefan trwy ficrowefan bwrpasol am gyfnod o 3 wythnos heb ddefnyddio unrhyw gyhoeddiad arall.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS  
CADEIRYDD**